

**2016 Rhif** (Cy. )

## **TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**Gorchymyn Cefnffordd yr A5  
(Pentre-du, Betws-y-coed,  
Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn  
Cyflymder 40 mya) 2016**

*Gwnaed* 15 Mawrth 2016

*Yn dod i rym* 17 Mawrth 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain - Caergybi (yr A5) (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### **Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mawrth 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2016.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lloedd arbennig-

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth

- ymarfer ymateb, i argyfwng  
diogelwch gwladol; neu  
(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru  
cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 220 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Rhos Dolydd hyd at bwynt 828 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

### Dirymu

4. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2015(3) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

15 Mawrth 2016

*Richard Morgan*

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; amnewidwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) 1984 p. 27; amnewidwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) (mae’r amnewidiadau yn cael effaith drwy O.S. 2013/1682 yn ddarostyngedig i’r darpariaethau arbed a throsiannol a bennir yn adran 15 o Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac Atodlen 8 iddi ac adran 50(5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20)).
- (3) O.S. 2015/1627 (Cy. 210)

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5  
(PENTRE-DU, BETWS-Y-COED,  
BWRDEISTREF SIROL CONWY) (TERFYN  
CYFLYMDER 40 MYA) 2016**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 17 Mawrth 2016

Effaith y Gorchymyn fydd rheoleiddio'r terfyn cyflymder o 40 mya sydd ar yr arwyddion ar y darn hwnnw o gefnffordd yr A5 ym Mhentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy, sy'n ymestyn o bwynt 220 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Rhes Dolydd hyd at bwynt 828 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno, a gwmpesir gan orchymyn dros dro ar hyn o bryd.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 15 Mawrth 2016 gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Llanrwst, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst LL26 0DF neu gellir cael copïau'n rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r rhif cyfeirnod qA1230515/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2016).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5  
(PENTRE-DU, BETWS-Y-COED,  
BWRDEISTREF SIROL CONWY) (TERFYN  
CYFLYMDER 40 MYA) 2016**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU**

Mae'r Gorchymyn yn un gweinyddol er budd diogelwch ar y ffordd. Bu terfyn cyflymder 40 mya ac arwyddion yn unol â hynny yn y lleoliad hwn am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg yn ddiweddar na ellir dod o hyd i'r Gorchymyn parhaol gwreiddiol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i orfodi'r cyfyngiad cyflymder. Fel mesur dros dro, gosodwyd Gorchymyn terfyn cyflymder dros dro yn lle'r gorchymyn parhaol hwn a fydd yn rheoleiddio'r sefyllfa yn y lleoliad hwn.